**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **HSS-23-02(p.6)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 18 Rhagfyr 2002 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth Genedlaethol Dros Diogelwch Cleifion |

**Diben**

1 Hysbysu aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod Adroddiad Blynyddol cyntaf yr Asiantaeth Genedlaethol Dros Diogelwch Cleifion 2001 – 2002 wedi'i gyhoeddi.

**Crynodeb**

2 Mae'n ofynnol i'r Asiantaeth gyflwyno adroddiad blynyddol am y swyddogaethau a'r gweithgareddau y mae'n eu cyflawni bob blwyddyn. Mae copi o'r adroddiad yn Atodiad 1.

**Amserlen**

3 Cafodd Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth ei ddosbarthu yn ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 4 Rhagfyr. Mae swyddogion y Cynulliad yn awyddus i sicrhau bod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweld yr adroddiad mor agos i ddyddiad ei gyhoeddi â phosibl.

**Y Cefndir**

4 Sefydlodd yr Adran Iechyd yr Asiantaeth Genedlaethol Dros Diogelwch Cleifion yn Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Gorffennaf 2001 fel corff ar gyfer Lloegr yn unig. Cytunwyd ar drefniant rhwng y Cynulliad a'r Asiantaeth o dan adran 41 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth ar 15 Mai.

5 Dyma rôl yr Asiantaeth:

- dyfeisio a monitro system cofnodi digwyddiadau difrifol a'i rhoi ar waith;
- casglu a dadansoddi'r wybodaeth briodol sy'n deillio o'r system honno ac o ffynonellau eraill;

- cynnig atebion sy'n hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu cleifion;
- hyrwyddo ymchwil a fydd yn gwella diogelwch ymhellach;
- datblygu targedau a chadw llygad ar hynt y gwaith.

6 O dan drefniant Adran 41, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth gyflwyno adroddiad blynyddol am ei gweithgareddau. Dyma'r adroddiad cyntaf y mae'r Asiantaeth wedi'i lunio ers ei sefydlu.

7 Cytunwyd y dylai'r adroddiad gael ei gyflwyno ger bron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel papur i'w nodi ac y dylid ei gadw yn llyfrgell y Cynulliad.

8 Mae'r adroddiad yn rhoi manylion yr hyn a gyflawnwyd gan yr Asiantaeth yn ystod 2001-02. Mae'r adran 'Links and relationships' yn disgrifio'n fyr y cytundeb rhwng yr Asiantaeth a'r Cynulliad. Rhoddir sylw hefyd i'r ddau gynllun peilot a gynhaliwyd yng Nghymru gan yr Asiantaeth yn ystod y cam profi gwreiddiol yn 2001-02.

9 Cafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi'n uniaith Saesneg gan iddo gael ei lunio cyn i'r Asiantaeth a'r Cynulliad wneud cytundeb. Bydd yr adroddiadau yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Caiff y costau sy’n gysylltiedig â rhoi’r Asiantaeth ar waith ar gyfer 2002-2003 eu talu o gyllideb effeithiolrwydd clinigol Q2 y GIG, a chafodd £2 filiwn eu clustnodi er mwyn gwneud hynny. Mae’r cyllid hwn yn cael ei gadw yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Labordai Iechyd y Cyhoedd/y Bwrdd Safonau Biolegol Cenedlaethol a Mentrau Canolog. Ymgynghorwyd â chyllid y GIG sydd wedi nodi’r goblygiadau ariannol.

**Cydymffurfio**

11. Mae Adran 11 o Ddeddf y GIG 1977 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu awdurdodau iechyd arbennig. Cafodd y Ddeddf hon ei dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Nid oes unrhyw fater o reoleidd-dra na phriodoldeb.

**Camau i'w cymryd**

12 Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth Genedlaethol Dros Diogelwch Cleifion 2001-2002.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt: Janet Atwell Thomas, Yr Is- Adran Ansawdd GIG, (ffôn) 029 2082 1127**